

Clifford Jones Timber Group

Proffil y Cwmni

Clifford Jones Timber Group (CJ Timber) yw gweithgynhrychwr mwyaf y Deyrnas Unedig o byst pren ffensys. Mae CJ Timber, a sefydlwyd ym 1948, yn gwmni sydd wedi'i ardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd ac mae ei bencadlys ar safle 13 erw ecologyfeillgar yn Rhuthun, gogledd Cymru. Darparant gynhyrchion pren blaengar, o ansawdd uchel ac sy'n deillio o goedwigoedd cynaliadwy lleol, at amrywiaeth gynyddol o ddibenion, i'w cwsmeriaid. Mae'r rhain yn cynnwys pyst ffensys, pren wedi'i lamineiddio i'r diwydiannau adeiladu a hamdden, sarn ar gyfer ceffylau, gwasarn cathod ac amrywiaeth o danwyddau pren – o foncyffion sych a brics pren i belenni pren ar gyfer boeleri biomas.



Caiff dros 100,000 tunnell o bren ei brosesu ar safle Rhuthun bob blwyddyn, felly ethos 'gwyrd' y cwmni yw defnyddio pob darn o bren sy'n dod drwy'r drysau. Mae eu hymrwymiad i gynaliadwyedd wedi arwain at ddatblygu fframiau pren TimberSol newydd y cwmni ar gyfer gosodiadau paneli haul, sy'n elwa ar ôl troed carbon is o gymharu â'r ffrâm haearn gonfensiynol.

Cydweithio â BEACON

Mae CJ Timber wedi bod yn cydweithio â'r Ganolfan BioGyfansoddion ym Mhrifysgol Bangor ers nifer o flynyddoedd. Yn ddiweddar, mae'r cwmni wedi cymryd rhan mewn nifer o gydweithrediadau amrywiol gyda menter BEACON. Mae'r prosiectau'n amrywio o ddad-ddyfrio sglodion pren i archwilio cyfansoddion sawr anweddol mewn melinau llifio conwydd, gyda'r nod o wneud y mwyaf o'r gwerth yn eu ffrydiau gwastraff presennol.

Arweinir y prosiectau ymchwil a datblygu gan wyddonydd BEACON, Dr Dave Preskett, yn y cyfleusterau maint peilot unigryw ym Mona, Ynys Môn. Mae CJ Timber yn cyfrannu deunydd biomas at y prosiect, ynghyd â gwybodaeth am y farchnad. Mae BEACON wedi cynorthwyo'r cwmni i ddod o hyd i gynhyrch caenu arloesol, gwydn a chyfeillgar i'r amgylchedd, sy'n gwarchod y pren rhag pydru. O ganlyniad, mae'r cwmni wedi buddsoddi mewn offer i ychwanegu'r dechnoleg caenu at eu cynhyrchion, gan arwain at gyfleoedd newydd yn y farchnad.

“ Mae BEACON wedi bod yn adnodd amhrisiadwy i'n cwmni. Yn Clifford Jones Timber, rydym bob amser yn ceisio dangos dychymyg ac amrywiaeth wrth ychwanegu gwerth at ein hystod cynhyrchion a'n prosesau. Heb wybodaeth wyddonol a chyfleusterau ymchwil BEACON, ni fyddem wedi gallu archwilio cysyniadau mor amrywiol ac arloesol. ”

Alan Jones, Cadeirydd
Clifford Jones Timber

Mae CJ Timber yn parhau i arallgyfeirio ac ehangu i farchnadoedd newydd yn sgil agor y gwaith lamineiddio cyntaf yng Nghymru. Yn dyst i'w harloesedd wrth ddatblygu cynhyrchion, enillodd y cwmni wobwr "Tyfu trwy Arloesi", dan nawdd Llywodraeth Cymru, yng Ngwobrau Busnes Cyflawniad Cymru y Daily Post.

Clifford Jones
Timber Group Est.1948

Am fwy o wybodaeth: www.cjtimber.com/